**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Rhagfyr 2013

Annwyl David,

Ymhellach i'm llythyr dyddiedig 19 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu ynglŷn â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 ("y Rheoliadau diwygio"). Fel yr wyf wedi dweud wrth yr Aelodau sawl gwaith - yn ystod trafodaeth lawn yr wythnos ddiwethaf yn fwyaf diweddar - mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn diwygio'r Rheoliadau a basiwyd ar 26 Tachwedd i gynyddu'r ffigyrau ariannol yn unol â'r cynnydd mewn costau byw. Byddant hefyd yn ymdrin â'r pwyntiau technegol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses graffu.

Mae'r ffordd y caiff y cynnydd ei gyfrifo'n dibynnu ar y ffigyrau ariannol a nodir gan y Canghellor yn Natganiad yr Hydref, yn ogystal â'r rhestr a baratowyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol rhyngberthynol, fel Budd-dal Plant a'r Credyd Cynilion.

Gwneir Datganiad yr Hydref ar 5 Rhagfyr, ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi'r rhestr ar 9 Rhagfyr. Ni fyddaf yn gallu gosod y Rheoliadau diwygio tan 9 Rhagfyr felly. Mae hyn yn golygu mai 28 Ionawr yw'r cynharaf y gellir cynnal trafodaeth lawn, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Er nad oes goblygiadau i hyn o ran y Rheoliadau eu hunain, mae'n cyflwyno her ymarferol i'r awdurdodau lleol gan fod rhaid iddynt gynnwys y ffigurau ariannol uwch yn eu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Fel y gwyddoch, rhaid i'r awdurdodau lleol ymgynghori ar eu Cynlluniau a'u mabwysiadu mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor erbyn 31 Ionawr 2014. Bydd rhaid i unrhyw awdurdod sy'n methu â mabwysiadu Cynllun ddilyn y Cynllun Diofyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 sy'n caniatáu i awdurdodau lleol newid eu Cynlluniau yn ystod y flwyddyn. Nid oes mecanwaith, felly, er mwyn sicrhau bod awdurdod lleol yn mabwysiadu'r ffigurau ariannol uwch os bydd Cyngor yn cyfarfod i fabwysiadu ei Gynllun cyn i'r Cynulliad drafod y Rheoliadau diwygio. Mae hyn yn golygu bod perygl na fydd pob awdurdod lleol yn defnyddio'r ffigurau uwch. Golyga hyn y gall ymgeiswyr o wahanol ardaloedd gael eu trin yn wahanol, ac y bydd rhai ymgeiswyr yn waeth eu byd gan nad yw'r cynnydd mewn costau byw yn cael ei gynnwys.

Rhoddwyd gwybod i'r awdurdodau lleol am yr amserlen ar gyfer llunio'r Rheoliadau diwygio, a gofynnwyd iddynt sicrhau bod ganddynt drefniadau i gynnwys y ffigurau ariannol uwch yn y Cynlluniau y byddant yn eu mabwysiadu.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn fodlon ystyried y Rheoliadau ac adrodd arnynt cyn 28 Ionawr, fodd bynnag, er mwyn gallu trefnu i gynnal y drafodaeth lawn yn gynharach. Bydd hyn yn eu helpu'r holl awdurdodau lleol i baratoi, ac yn golygu eu bod yn gallu mabwysiadu'r ffigyrau uwch.

Mae'r Rheoliadau diwygio yn fyrrach o lawer na'r rheini a gymeradwywyd ar 26 Tachwedd. Rhyw 13 tudalen yw eu hyd, a byddai fy swyddogion yn fwy na bodlon i weithio gyda'ch swyddogion chi i gefnogi'r broses graffu. Rwyf hefyd yn fodlon rhannu copi o'r Rheoliadau drafft gyda'r Pwyllgor. Rwy'n disgwyl y bydd y rhain ar gael erbyn prynhawn dydd Gwener, er mai dim ond ffigurau dros dro fydd ynddynt.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business